YSGOL CREUDDYN
DAWN DYSG DAIONI

Yr Adran Fathemateg

CC 3

# Rhifau:

# Deifio'n ddyfnach

## Atebion

Enw:


# Cynnwys


| Pennod | Gweithgareddau | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| **Gwerth Lle** | Cyfrif cownteri. Rhif, rhifolyn a digid. Bôn deg. Blociau Dienes. Bôn chwech (pacio wyau). Bôn wyth (cymeriadau cartwnau). Bôn dau: rhifau deuaidd. Dotiau'n ffrwydro. Problem 1089. Rhifolion eraill. | 3 |
| **Rhifau Negatif** | Cownteri dwy ochr. Pâr sero. Adio efo cownteri dwy ochr. Tynnu efo cownteri dwy ochr. Gridiau rhifau cyfeiriol. Rhifau negatif mewn cyd-destun. | 25 |
| **Ffracsiynau** | Terminoleg. Ffracsiwn o siâp. Cyfrifo ffracsiwn o rif. Ffracsiynau ac amser. Ffracsiwn fel swm rhannu. Cymharu maint ffracsiynau. Y wal ffracsiynau. | 37 |




# Gwerth Lle

Sawl cownter sydd i'w gweld isod? 29




Cylchwch y cownteri i ddangos sut gwnaethoch gyfrif y cownteri.

A wnaeth pobl eraill gyfrif y cownteri mewn ffyrdd gwahanol? Trafodwch.


## Rhif, rhifolyn a digid

Gobeithio i chi gytuno mai dau ddeg naw cownter oedd ar y dudalen flaenorol. Fel arfer, rydym yn ysgrifennu'r **rhif** yma fel y **rhifolyn** 29, gyda'r **digid** 2 yn dangos dau ddeg, a'r **digid** 9 yn dangos naw uned.





- Mae **digidau'n** cael eu defnyddio i ffurfio **rhifolion**.
- Mae rhifolion yn cynrychioli'r syniad o **rif**.



## Ymarfer


Pa rifau sy'n cael eu dangos yn y lluniau? Cylchwch y rhifolyn cywir.

(a)




(i) 8 (ii) 7 (iii) 6

(b)




(i) 15 (ii) 13 (iii) 11

(c)




(i) 14 (ii) 16 (iii) 18

(ch)




(i) 8 (ii) 7 (iii) 6

(d)




(i) 5 (ii) 7 (iii) 8

(dd)



(i) 100 (ii) 10 (iii) 50


## Bôn deg



Fel arfer, mae person efo deg bys a bawd ar eu dwylo, ac felly rydym fel bodau dynol wedi dysgu i ysgrifennu rhifolion yn y system **bôn deg**.

Yn y system yma, rydym yn gosod y **deg digid** 0 i 9 mewn colofnau i ysgrifennu rhifolion gwahanol. Er enghraifft, mae'n bosib ysgrifennu'r rhif tri chant pum deg chwech fel yma:

| cannoedd | degau | unedau |
|---|---|---|
| **3** | **5** | **6** |
| $10^2 = 100$ | 10 | 1 |




## Ymarfer

Mae cod 3 digid yn agor y clo ar y dde. Rhaid i'r cod 3 digid ddefnyddio'r digidau hyn i gyd:

**2, 5 a 9.**


Dangoswch yr holl rifolion gwahanol sy'n bosib ar gyfer y cod.




259, 295, 529, 592, 925, 952


## Blociau Dienes (bôn deg)

Mae'n bosib defnyddio'r blociau Dienes isod i ddangos rhifau sydd wedi'u hysgrifennu mewn bôn deg.



$10^3 = 1000$, Mil — $10^2 = 100$, Cant — 10, Deg — 1, Uned

Er enghraifft, dyma un ffordd o ddefnyddio'r blociau i ddangos y rhifolyn 356:



## Ymarfer


Defnyddiwch y blociau Dienes i ddangos y rhifolion canlynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| (a) 3 | (b) 30 | (c) 300 | (ch) 3000 |
| (d) 303 | (dd) 3030 | (e) 33 | (f) 3330 |
| (ff) 2 | (g) 24 | (ng) 243 | (h) 2431 |
| (i) 2016 | (j) 4007 | (l) 280 | (ll) 5309 |


# Ymarfer

Pa rifau sy'n cael eu dangos isod?


(a) 124




(b) 230




(c) 78




(ch) 106



(d) 43



(dd) 32




## Bonion Eraill

Nid bôn deg yw'r unig ffordd o ysgrifennu rhifau. Er enghraifft, mae bôn chwech yn defnyddio'r chwe digid 0, 1, 2, 3, 4, 5 i ysgrifennu rhifau wedi'u grwpio fesul chwech.

## Cyfrif efo bôn chwech

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Un | 20 | Dau chwech |
| 2 | Dau | 21 | Dau chwech un |
| 3 | Tri | 22 | Dau chwech dau |
| 4 | Pedwar | 23 | Dau chwech tri |
| 5 | Pump | 24 | Dau chwech pedwar |
| 10 | Chwech | 25 | Dau chwech pump |
| 11 | Un chwech un | 30 | Tri chwech |
| 12 | Un chwech dau | 31 | Tri chwech un |
| 13 | Un chwech tri | 32 | Tri chwech dau |
| 14 | Un chwech pedwar | 33 | Tri chwech tri |
| 15 | Un chwech pump | 34 | Tri chwech pedwar .... |


## Blociau Dienes (bôn chwech)




$10^3 = 1000$, Ciwb chwech $10^2 = 100$, Sgwâr chwech 10, Chwech 1, Uned

## Bocsys wyau

Mae bôn chwech yn ddefnyddiol wrth bacio wyau, gan fod bocsys o'r siapiau canlynol yn cael eu defnyddio.



## Pacio wyau



Sawl wy sy'n cael eu dangos uchod?

Yn gyntaf, ysgrifennwch eich ateb gan ddefnyddio bôn deg: 15

Sawl bocs **llawn** o 6 wy fyddai'r wyau uchod yn llenwi? 2







Sawl wy fyddai ar ôl wedi i chi lenwi'r bocsys? 3

Sawl wy sy'n cael eu dangos uchod? Y tro yma,
ysgrifennwch eich ateb gan ddefnyddio bôn chwech: 23


Beth yw'r cysylltiad rhwng yr ateb mewn bôn chwech a'r ddau ateb gynt?

2 bocs llawn o 6 wy, 3 dros ben felly 23 yn bôn 6.

Llenwch y tabl canlynol.

| **Wyau** | **Nifer yr wyau, bôn deg** | **Nifer yr wyau, bôn chwech** |
|---|---|---|
|  | 9 | 13 |
|  | 12 | 20 |
|  | 16 | 24 |
|  | 21 | 33 |

## Pacio wyau fesul 4




Sawl wy sy'n cael eu dangos uchod?

Yn gyntaf, ysgrifennwch eich ateb gan ddefnyddio bôn deg: 30



Sawl bocs **llawn** o 4 wy fyddai'r wyau uchod yn llenwi? 7

Sawl wy fyddai ar ôl wedi i chi lenwi'r bocsys? 2



Sawl wy sy'n cael eu dangos uchod? Y tro yma,
ysgrifennwch eich ateb gan ddefnyddio bôn pedwar: 132

Llenwch y tabl canlynol.


| **Wyau** | **Nifer yr wyau, bôn deg** | **Nifer yr wyau, bôn pedwar** |
|---|---|---|
|  | 9 | 21 |
|  | 12 | 30 |

Mae angen 3 wy mewn un omled caws a thomato. Mae Rhodri yn coginio 6 omled, un i bob aelod o'i deulu. Sawl bocs o 4 wy bydd angen eu prynu?

3 × 6 = 18 o wyau    4, 8, 12, 16, 20

Mae angen prynu 4 bocs o wyau.
(Bydd 2 wy drosben.)

## Bôn wyth




Wrth wylio cartwnau, a ydych wedi sylwi bod y cymeriadau'n aml iawn efo pedwar bys a bawd ar bob llaw? Y rheswm dros hyn yw bod hi'n gyflymach animeiddio cymeriad sydd efo llai o fysedd, ond mae'n golygu bod Mickey Mouse, Spongebob Squarepants a Mr Urdd yn gorfod cyfrif gan ddefnyddio **bôn wyth**.

## Cyfrif efo bôn wyth

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Un | 15 | Un wyth pump |
| 2 | Dau | 16 | Un wyth chwech |
| 3 | Tri | 17 | Un wyth saith |
| 4 | Pedwar | 20 | Dau wyth |
| 5 | Pump | 21 | Dau wyth un |
| 6 | Chwech | 22 | Dau wyth dau |
| 7 | Saith | 23 | Dau wyth tri |
| 10 | Wyth | 24 | Dau wyth pedwar |
| 11 | Un wyth un | 25 | Dau wyth pump |
| 12 | Un wyth dau | 26 | Dau wyth chwech |
| 13 | Un wyth tri | 27 | Dau wyth saith |
| 14 | Un wyth pedwar | 30 | Tri wyth .... |

## Blociau Dienes (bôn wyth)



$10^3 = 1000$, Ciwb wyth  $10^2 = 100$, Sgwâr wyth  10, Wyth  1, Uned

## A wyddoch chi?

Roedd yr hen iaith Americanaidd Yuki yn defnyddio bôn wyth i gyfrif gan fod y bylchau rhwng y bysedd yn cael eu defnyddio i gyfrif, nid y bysedd eu hunain.

## Pacio bisgedi






Mae'r cwmni 'Bisgedi Blasus' yn pacio bisgedi mewn pecynnau o 8 bisged flasus.

Ar ddydd Llun, mae'r pobydd yn pobi 30 o fisgedi blasus.

Sawl pecyn llawn o fisgedi blasus yw hynny? 3



Sawl bisged fydd ar ôl ar ddydd Llun wedi i'r pobydd lenwi'r pecynnau? 6

Defnyddiwch y ddau ateb gynt i ysgrifennu 30 gan ddefnyddio bôn wyth. 36

Mae'r pobydd yn pobi 35 o fisgedi blasus, ffres ar ddydd Mawrth. Mae o'n defnyddio'r bisgedi oedd ar ôl ar ddydd Llun yn ogystal. Sawl pecyn llawn o fisgedi blasus fydd yn barod i'w gwerthu ddydd Mawrth? 5

Sawl bisged fydd ar ôl ar ddydd Mawrth? 1

Ar gyfer gweddill yr wythnos, dyma'r nifer o fisgedi ffres cafodd eu pobi pob dydd. Llenwch y tabl i ddangos sawl bisged ffres cafodd eu pobi pob dydd.

| Diwrnod | Bisgedi ffres y diwrnod hwnnw | Nifer y bisgedi, bôn deg | Nifer y bisgedi, bôn wyth |
|---|---|---|---|
| Dydd Mercher |  | 13 | 15 |
| Dydd Iau |  | 14 | 16 |
| Dydd Gwener |  | 9 | 11 |
| Dydd Sadwrn |  | 16 | 20 |

# Adio yn bôn wyth

## Enghraifft

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 3 | 5 | | | 2 | 6 | 3 | | | 5 | 6 | | | 4 | 3 | |
| | + | | 6 | | + | 3 | 4 | 7 | | + | 3 | 7 | | + | 1 | 5 | |
| | | 4 | 3 | | | 6 | 3 | 2 | | 1 | 1 | 5 | | | 6 | 0 | |
| | | 1 | | | | 1 | 1 | | | | 1 | | | | 1 | | |

## Ymarfer

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2 | | | 2 | | | 2 | | | 2 | | | 3 | 2 | | |
| | + | 4 | | + | 5 | | + | 6 | | + | 7 | | + | | 7 | | |
| | | 6 | | | 7 | | 1 | 0 | | 1 | 1 | | | 4 | 1 | | |
| | | | | | | | | | | | | | | 1 | | | |
| | | 4 | 3 | | | 4 | 3 | | | 4 | 3 | | | 4 | 3 | | |
| | + | 2 | 1 | | + | 2 | 6 | | + | 3 | 6 | | + | 7 | 0 | | |
| | | 6 | 4 | | | 7 | 1 | | 1 | 0 | 1 | | 1 | 3 | 3 | | |
| | | | | | | 1 | | | | 1 | | | | | | | |
| | | 3 | 4 | | | 2 | 6 | 4 | | | 2 | 7 | 3 | 4 | 2 | 4 | |
| | + | 7 | 6 | | + | 6 | 2 | 3 | | + | | 3 | 6 | 5 | 3 | 1 | |
| | 1 | 3 | 2 | | 1 | 1 | 0 | 7 | | | 3 | 3 | 2 | 1 | 5 | 5 | |
| | | 1 | | | | 1 | | | | | 1 | 1 | 1 | | | | |
| | | 3 | 0 | 4 | 5 | | | | 3 | 2 | 5 | | | | 1 | 2 | |
| | + | 2 | 4 | 7 | 4 | | + | 1 | 7 | 3 | 4 | | + | 2 | 7 | 0 | |
| | | 5 | 5 | 4 | 1 | | | 2 | 2 | 6 | 1 | | | 3 | 0 | 2 | |
| | | | 1 | 1 | | | | 1 | | 1 | | | | 1 | | | |

# Tynnu yn bôn wyth

## Enghraifft

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 − 2 = 4 | 7 ~~4~~ (3) 3 (¹3) − 15 = 726 | ~~5~~ (4) 2 (¹2) − 26 = 24 | ~~5~~ (4) ~~3~~ (12) 6 (¹6) − 147 = 367 |

## Ymarfer

| | | | |
|---|---|---|---|
| 45 − 4 = 41 | 45 − 5 = 40 | ~~4~~ (3) 5 (¹5) − 6 = 37 | ~~4~~ (3) 5 (¹5) − 7 = 36 |
| 34 − 13 = 21 | ~~3~~ (2) 4 (¹4) − 16 = 16 | ~~3~~ (2) 4 (¹4) − 27 = 5 | ~~3~~ (2) 4 (¹4) − 15 = 17 |
| 3 ~~4~~ (3) 2 (¹2) − 216 = 124 | ~~3~~ (2) 4 (¹4) 2 − 251 = 71 | ~~3~~ (2) ~~4~~ (13) 2 (¹2) − 164 = 156 | |
| ~~3~~ (2) ~~1~~ (10) 5 (¹5) − 126 = 167 | ~~4~~ (3) ~~1~~ (10) 3 (¹3) ~~2~~ (¹) 5 (¹5) − 13406 = 25717 | ~~40~~ (37) 3 (¹3) − 235 = 146 | |

## Bôn dau: Rhifau Deuaidd

Rhifau deuaidd (*binary*) yw'r rhifolion y mae cyfrifiaduron yn ei ddeall. Dim ond dau ddigid sydd yn y system yma: 0 ac 1. Yn syml iawn:


0 (sero) = diffodd (dim cerrynt trydanol);

1 (un) = ymlaen (cerrynt trydanol yn llifo).

## Didfap

Mae didfap (*bitmap*) yn defnyddio rhifau deuaidd i gynrychioli llun syml du a gwyn.


Mae '0' yn cynrychioli sgwâr gwyn ac mae '1' yn cynrychioli sgwâr du.



| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 |

## Ymarfer


Ysgrifennwch y didfap ar gyfer y llun isod.




| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |

## Ymarfer


Ar y gridiau isod, dyluniwch luniau eich hun. Yna, ysgrifennwch y didfap ar gyfer eich llun. Cofiwch ddefnyddio ‘0’ i gynrychioli sgwâr gwyn ac ‘1’ i gynrychioli sgwâr wedi’i dywyllu.





## Ymarfer

Cwblhewch y llun o’r didfap isod.



| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |

## Newid rhwng bôn deg a bôn dau

Yn ein system arferol bôn deg, mae gwerth pob colofn newydd i'r chwith **ddeg gwaith** yn fwy na'r golofn gynt.

| Deg mil | Mil | Cant | Deg | Uned |
|---|---|---|---|---|
| $10^4 = 10000$ | $10^3 = 1000$ | $10^2 = 100$ | 10 | 1 |

× 10 × 10 × 10 × 10

Yn y system bôn dau fodd bynnag, mae gwerth pob colofn newydd i'r chwith **ddwywaith** yn fwy na'r golofn gynt.

| Un deg chwech | Wyth | Pedwar | Dau | Uned |
|---|---|---|---|---|
| $10^4 = 10000$ ($2^4 = 16$) | $10^3 = 1000$ ($2^3 = 8$) | $10^2 = 100$ ($2^2 = 4$) | 10 (2) | 1 |

× 2 × 2 × 2 × 2

Mae hyn yn golygu bod y rhifolyn bôn dau 10110 yn cynrychioli'r rhifolyn bôn deg 16 + 4 + 2 = 22.

### Ymarfer

Newidiwch y rhifolion bôn dau canlynol i fod mewn bôn deg.

| Bôn dau | | | | | | Bôn deg | Bôn dau | | | | | | Bôn deg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 16 | 8 | 4 | 2 | 1 | | | 16 | 8 | 4 | 2 | 1 | |
| (a) | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 10 | (e) | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 14 |
| (b) | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 21 | (f) | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 17 |
| (c) | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 25 | (ff) | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 29 |
| (ch) | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 4 | (g) | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 7 |
| (d) | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 5 | (ng) | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 3 |
| (dd) | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 18 | (h) | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 30 |

Er mwyn ysgrifennu 9 yn bôn dau, rhaid ystyried pa golofnau gallwch eu defnyddio i gael cyfanswm o 9 wrth eu hadio.

| **16** | **8** | **4** | **2** | **1** |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |

Mae 9 = 8 + 1, felly mae 9 yn bôn dau yn 1001.

**Ymarfer**

Cwblhewch y tabl canlynol.


| Bôn deg | Bôn dau | | | | | Bôn deg | Bôn dau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 16 | 8 | 4 | 2 | 1 | | 16 | 8 | 4 | 2 | 1 |
| 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 17 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 18 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 3 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 19 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 4 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 20 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| 5 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 21 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| 6 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 22 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| 7 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 23 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| 8 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 24 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| 9 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 25 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| 10 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 26 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| 11 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 27 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| 12 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 28 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| 13 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 29 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| 14 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 30 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| 15 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 31 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| 16 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | |

## Dysgu mwy am fonion: Dotiau'n ffrwydro

Ewch i'r wefan https://www.explodingdots.org/ a gweithio eich ffordd trwy YNYS 1 (MECHANIA).

### Enghraifft

Dyma sy'n digwydd mewn peiriant 2 → 1 os yw 5 dot yn cael eu rhoi yn y bocs ar y dde.




### Ymarfer

Defnyddiwch bapur sgwariau i ddangos beth sy'n digwydd os yw'r nifer canlynol o ddotiau'n cael eu rhoi yn y bocs ar y dde.

(a) 1 001 (b) 2 010 (c) 3 011

(ch) 4 100 (d) 6 110 (dd) 7 111

### Estyniad

Ailadroddwch yr ymarfer uchod, ond ar gyfer peiriant 3 → 1.

(a) 001 (b) 002 (c) 010 (ch) 011 (d) 020 (dd) 021

## Problem yr Estronwyr

Isod, mae 5 estronwr. Mae'r 5 ohonyn nhw'n cyfrif mewn ffordd wahanol.



1af: Bobi–Biws sy'n cyfrif fesul **dau.**


2il: Lottie–Las sy'n cyfrif fesul **tri.**


3ydd: Orig–Oren sy'n cyfrif fesul **pedwar.**

4ydd: Blodwen–Binc sy'n cyfrif fesul **pump.**


5ed: Fiona–Felyn sy'n cyfrif fesul **chwech.**


Mae'r estronwyr newydd lanio ar Y Ddaear ac am gyfrif sawl bys (a bawd) sydd yn y llun isod.










Ysgrifennwch eu hatebion yn y swigod siarad.



## Bonion, bonion, bonion!

Cwblhewch y tabl canlynol.

| Bôn deg | Bôn naw | Bôn wyth | Bôn saith | Bôn chwech | Bôn pump | Bôn pedwar | Bôn tri | Bôn dau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 10 |
| 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 10 | 11 |
| 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 10 | 11 | 100 |
| 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 10 | 11 | 12 | 101 |
| 6 | 6 | 6 | 6 | 10 | 11 | 12 | 20 | 110 |
| 7 | 7 | 7 | 10 | 11 | 12 | 13 | 21 | 111 |
| 8 | 8 | 10 | 11 | 12 | 13 | 20 | 22 | 1000 |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 21 | 100 | 1001 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 20 | 22 | 101 | 1010 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 21 | 23 | 102 | 1011 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 20 | 22 | 30 | 110 | 1100 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 21 | 23 | 31 | 111 | 1101 |
| 14 | 15 | 16 | 20 | 22 | 24 | 32 | 112 | 1110 |
| 15 | 16 | 17 | 21 | 23 | 30 | 33 | 120 | 1111 |
| 16 | 17 | 20 | 22 | 24 | 31 | 100 | 121 | 10000 |
| 17 | 18 | 21 | 23 | 25 | 32 | 101 | 122 | 10001 |
| 18 | 20 | 22 | 24 | 30 | 33 | 102 | 200 | 10010 |
| 19 | 21 | 23 | 25 | 31 | 34 | 103 | 201 | 10011 |
| 20 | 22 | 24 | 26 | 32 | 40 | 110 | 202 | 10100 |
| 21 | 23 | 25 | 30 | 33 | 41 | 111 | 210 | 10101 |
| 22 | 24 | 26 | 31 | 34 | 42 | 112 | 211 | 10110 |
| 23 | 25 | 27 | 32 | 35 | 43 | 113 | 212 | 10111 |
| 24 | 26 | 30 | 33 | 40 | 44 | 120 | 220 | 11000 |
| 25 | 27 | 31 | 34 | 41 | 100 | 121 | 221 | 11001 |
| 26 | 28 | 32 | 35 | 42 | 101 | 122 | 222 | 11010 |
| 27 | 30 | 33 | 36 | 43 | 102 | 123 | 300 | 11011 |
| 28 | 31 | 34 | 40 | 44 | 103 | 130 | 301 | 11100 |
| 29 | 32 | 35 | 41 | 45 | 104 | 131 | 302 | 11101 |
| 30 | 33 | 36 | 42 | 50 | 110 | 132 | 310 | 11110 |
| 31 | 34 | 37 | 43 | 51 | 111 | 133 | 311 | 11111 |

## Problem 1089

| | |
|---|---|
| Dyma rif 3 digid ble mae'r digidau'n mynd yn llai: | 742 |
| Symudwch y digidau i fod o chwith: | 247 |
| Tynnwch: | 495 |
| Symudwch y digidau i fod o chwith: | 594 |
| Adiwch: | 1,089 |

Beth sy'n digwydd os ydych chi'n cychwyn efo 832?

| | |
|---|---|
| Dyma rif 3 digid ble mae'r digidau'n mynd yn llai: | 832 |
| Symudwch y digidau i fod o chwith: | 238 |
| Tynnwch: | 594 |
| Symudwch y digidau i fod o chwith: | 495 |
| Adiwch: | 1089 |

Nawr cychwynnwch efo rhif tri digid o'ch dewis chi:

| | |
|---|---|
| Dyma rif 3 digid ble mae'r digidau'n mynd yn llai: | |
| Symudwch y digidau i fod o chwith: | |
| Tynnwch: | |
| Symudwch y digidau i fod o chwith: | |
| Adiwch: | |

Tybed pam fod yr ateb o hyd yn 1089?

**Sialens!**


Ailadroddwch y broses uchod, ond gan weithio yn bôn wyth, nid bôn deg.

Awgrym: byddwch yn hynod o ofalus wrth 'fenthyg' yn y symiau tynnu.

Os yw'r cyfanswm terfynol yn 1089 ar gyfer bôn deg, beth yw'r cyfanswm terfynol ar gyfer bôn wyth? 1067

## Rhifolion Eraill

Rydym yn gyfarwydd efo rhifolion fel 238 neu 873, ond mae mathau gwahanol o rifolion hefyd.




**Rhifolion Arabeg Orllewinol**




**Rhifolion Tsieineaidd**




**Rhifolion Arabeg Ddwyreiniol**

## Rhifolion Rhufeinig

Roedd gan y Rhufeiniad ffordd arbennig o ysgrifennu rhifau. Roedden nhw yn defnyddio'r digidau canlynol.

| 1 | 5 | 10 | 50 | 100 | 500 | 1,000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I | V | X | L | C | D | M |

Gall y digidau uchod gael eu cyfuno i ffurfio'r rhifolion canlynol.

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | II | III | IV | V | VI | VII | VIII | IX | X |

### Rheol 1

Os yw digid yn ymddangos **ar ôl** digid mwy (neu yn hafal i) yna mae'r digid yn cael ei **adio**.

Er enghraifft:

VI = V + I neu LXX = L + X + X
= 5 + 1 = 50 + 10 + 10
= 6 = 70

### Rheol 2


Os yw digid yn ymddangos **cyn** digid mwy yna caiff ei **dynnu** o'r digid hwnnw.

Er enghraifft:

IV = V – I neu IX = X – I
= 5 – 1 = 10 – 1
= 4 = 9

## Ymarfer

Ysgrifennwch y rhifolion Rhufeinig coll ar y cloc ar y dde.




## Ymarfer

Newidiwch y rhifolion bôn deg canlynol i fod yn rhifolion Rhufeinig.

(a) 31 XXXI

(b) 160 CLX

(c) 1,530 MDXXX

(ch) 2,025 MMXXV

## Ymarfer

Newidiwch y rhifolion Rhufeinig canlynol i fod yn rhifolion bôn deg.

(a) XXVI 26

(b) CXVI 116

(c) CDLII 452

(ch) MMMCLXVII 3167

(d) MMDCCLXXIV 2774

(dd) MCLXXVIII 1178

## Ymarfer

Dyma ddwy set o ddigidau rhwng 0 a 9.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |

Defnyddiwch y digidau uchod i greu'r rhifolion 4 digid canlynol. Defnyddiwch bob digid unwaith yn unig.

Yr odrif mwyaf 9987

Yr eilrif mwyaf 9988

Lluosrif lleiaf 5 1005

Lluosrif mwyaf 3 9987

Y rhif agosaf at 5,000 5001

Lluosrif 9 agosaf at 2,000 1998


# Rhifau Negatif

## Cownteri dwy ochr


Mae cownter melyn yn werth +1 ac mae cownter coch yn werth –1. Rydym yn dweud "un" ar gyfer +1 a "negatif un" ar gyfer –1.

## Enghraifft

(a) Mae'r diagram isod yn dangos 6.




(b) Mae'r diagram isod yn dangos –4.




## Ymarfer

Pa rifau sy'n cael eu dangos yn y diagramau isod?


(a) 8




(b) –3



(c) 3



(ch) –7




## Ymarfer

Defnyddiwch gownteri dwy ochr (naill ai rhai ffisegol neu rhai ar-lein) i ddangos y rhifau canlynol.

(a) 5 (b) –2 (c) 9 (ch) –6

## Pâr Sero


Mae un cownter melyn ac un cownter coch, gyda'i gilydd, yn cynrychioli sero. (Trafodwch pam bod hyn yn wir.)




Rydym yn galw pâr o gownteri coch a melyn yn "pâr sero". Mae'n bosib ychwanegu pâr sero i set o gownteri, neu (os yn bosib) dynnu pâr sero o set o gownteri, heb gael effaith ar werth y cownteri.

## Enghraifft

(a) Mae'r diagram isod yn dangos 5.




(b) Mae'r diagram isod yn dangos –3.




## Ymarfer

Pa rifau sy'n cael eu dangos yn y diagramau isod?


(a) 4




(b) 4




(c) 2




(ch) 2




(d) 2




(dd) 5




(e) 0




(f) 1




(ff) 4




(g) −3



(ng) −4




(h) −2



## Pa swm?


Mae'r canlynol yn dangos tair ffordd o ddangos yr un swm adio.
Cwblhewch y bylchau.

### Enghraifft



4 + –2

Pedwar adio negatif dau




–6 + 3

Negatif chwech adio tri

### Ymarfer


(a)



5 + –2

Pump adio negatif dau


(b)



–5 + 4

Negatif pump adio pedwar


(c)



6 + –1

Chwech adio negatif un


(ch)



–3 + 4

Negatif tri adio pedwar


(d)



4 + –3

Pedwar adio negatif tri


(dd)



–2 + 5

Negatif dau adio pump


(e)



3 + –4

Tri adio negatif pedwar

(f)



–1 + 7



Negatif un adio saith

# Adio efo cownteri dwy ochr



## Enghraifft

4 + –2 –6 + 3



Cam 1: Gosod y cownteri mewn rhes i ddangos y swm.

Cam 2: Ail-drefnu'r cownteri i adnabod unrhyw barau sero.

Cam 3: Symud unrhyw barau sero i ffwrdd a chyfrif beth sydd ar ôl.

Ateb: 2 Ateb: –3

## Ymarfer

Defnyddiwch gownteri dwy ochr i ffeindio'r atebion i'r symiau canlynol.

(a) 5 + –3 = 2 (b) 5 + –4 = 1 (c) 5 + –5 = 0

(ch) 5 + –6 = –1 (d) 5 + –7 = –2 (dd) 5 + –10 = –5

(e) –5 + 2 = –3 (f) –5 + 3 = –2 (ff) –5 + 4 = –1

(g) –5 + 5 = 0 (ng) –5 + 6 = 1 (h) –5 + 7 = 2

(i) 4 + –7 = –3 (j) –4 + –7 = –11 (l) –4 + 7 = 3

(ll) 4 + 7 = 11 (m) 4 + –4 = 0 (n) –4 + 4 = 0

(o) –4 + –4 = –8 (p) –4 + 6 = 2 (ph) –6 + 4 = –2

(r) –2 + –3 = –5 (rh) 9 + –4 = 5 (s) –8 + –1 = –9

(t) 7 + –8 = –1 (th) –7 + 8 = 1 (u) –7 + –8 = –15

## Sialens!


(a) 6 + –2 + 3 = 7 (b) –4 + –5 + 7 = –2 (c) –2 + 8 + –6 = 0

(ch) –1 + –5 + 6 = 0 (d) 8 + –2 + –4 = 2 (dd) –9 + 5 + –2 + 4 = –2


## Tynnu efo cownteri dwy ochr

### Enghraifft

I wneud y swm 8 – 2, rhaid cychwyn efo wyth cownter melyn…



…a thynnu dau ohonyn nhw i ffwrdd i adael chwe chownter melyn.



Felly, mae 8 – 2 = 6.

### Ymarfer

Defnyddiwch gownteri dwy ochr i ffeindio'r atebion i'r symiau canlynol.


(a) 7 – 2 =5 (b) 7 – 4 = 3 (c) 7 – 6 = 1

(ch) 6 – 1 =5 (d) 5 – 5 = 0 (dd) 12 – 7 = 5


## Tynnu beth sydd ar goll

Sut ydych yn gwneud y swm 5 – 7 gan ddefnyddio cownteri dwy ochr?


Gadewch i ni gychwyn efo pum cownter melyn.



Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu tynnu i ffwrdd saith cownter melyn (gan mai dim ond pump ohonynt sydd yno), felly rydym angen ychwanegu dau bâr sero.



Nawr mae'n bosib tynnu i ffwrdd saith cownter melyn, ac mae hyn yn gadael dau gownter coch, fel bod 5 – 7 = –2.



### Ymarfer

Defnyddiwch gownteri dwy ochr i ffeindio'r atebion i'r symiau canlynol.


(a) 5 – 8 = −3 (b) 3 – 6 = −3 (c) 2 – 7 = −5

(ch) 4 – 8 = −4 (d) 5 – 9 = −4 (dd) 9 – 13 = −4


## Tynnu rhif negatif

Beth yw ystyr y swm 4 – –3, sef ‘pedwar tynnu negatif tri’?

Gadewch i ni gychwyn efo pedwar cownter melyn.



Gallwn ychwanegu tri pâr sero heb newid gwerth y cownteri (pedwar).



Gallwn nawr dynnu negatif tri, sef tynnu i ffwrdd tri chownter coch.



Gwelwn mai saith sydd ar ôl, felly mae 4 – –3 = 7.

## Ymarfer

Defnyddiwch gownteri dwy ochr i ffeindio’r atebion i’r symiau canlynol.

| | | |
|---|---|---|
| (a) 4 – –2 =6 | (b) 4 – –1 =5 | (c) 4 – –4 =8 |
| (ch) 5 – –2 =7 | (d) 5 – –1 =6 | (dd) 5 – –4 =9 |
| (e) 6 – –3 =9 | (f) 6 – –2 =8 | (ff) 6 – –5 =11 |
| (g) 3 – –2 =5 | (ng) 3 – –4 =7 | (h) 3 – –6 =9 |
| (i) 8 – –3 =11 | (j) 8 – –1 =9 | (l) 8 – –5 =13 |
| (ll) 7 – –4 =11 | (m) 7 – –2 =9 | (n) 7 – – 3 =10 |

## Cychwyn efo rhif negatif

Trafodwch sut byddech yn defnyddio cownteri dwy ochr i wneud y swm –4 – –2.

## Ymarfer

| | | |
|---|---|---|
| (a) –4 – –1 = -3 | (b) –4 – –3 = -1 | (c) –4 – –4 = 0 |
| (ch) –5 – –1 =-4 | (d) –5 – –3 = -2 | (dd) –5 – –4 = -1 |
| (e) –7 – –1 = -6 | (f) –7 – –3 = -4 | (ff) –7 – –4 = -3 |

## Gridiau Rhifau Cyfeiriol

Sut mae'r grid isod yn gweithio? Beth yw'r rhif coll?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | 5 | 9 | 14 | 23 |
| 6 | 7 | 13 | 20 | 33 |
| 10 | 12 | 22 | 34 | 56 |
| 16 | 19 | 35 | 54 | 89 |
| 26 | 31 | 57 | 88 | ? |

## Ymarfer

Llenwch y rhifau yn y gridiau canlynol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 | 2 | 3 | 5 |
| 1 | 2 | 3 | 5 | 8 |
| 2 | 3 | 5 | 8 | 13 |
| 3 | 5 | 8 | 13 | 21 |
| 5 | 8 | 13 | 21 | 34 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | –1 | 0 | –1 | –1 |
| 0 | 1 | 1 | 2 | 3 |
| 1 | 0 | 1 | 1 | 2 |
| 1 | 1 | 2 | 3 | 5 |
| 2 | 1 | 3 | 4 | 9 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | 3 | 5 | 8 | 13 |
| –2 | 0 | –2 | –2 | –4 |
| 0 | 3 | 3 | 6 | 9 |
| –2 | 3 | 1 | 4 | 5 |
| –2 | 6 | 4 | 10 | 14 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| –6 | 5 | –1 | 4 | 3 |
| 7 | –3 | 4 | 1 | 5 |
| 1 | 2 | 3 | 5 | 8 |
| 8 | –1 | 7 | 6 | 13 |
| 9 | 1 | 10 | 11 | 21 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| –7 | 6 | –1 | 5 | 4 |
| 4 | –2 | 2 | 0 | 2 |
| –3 | 4 | 1 | 5 | 6 |
| 1 | 2 | 3 | 5 | 8 |
| –2 | 6 | 4 | 10 | 14 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | –5 | –3 | –8 | –11 |
| –4 | 7 | 3 | 10 | 13 |
| –2 | 2 | 0 | 2 | 2 |
| –6 | 9 | 3 | 12 | 15 |
| –8 | 11 | 3 | 14 | 17 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| –4 | –3 | –7 | –10 | –17 |
| –2 | –1 | –3 | –4 | –7 |
| –6 | –4 | –10 | –14 | –24 |
| –8 | –5 | –13 | –18 | –31 |
| –14 | –9 | –23 | –32 | –55 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| –2 | 1 | –1 | 0 | –1 |
| 2 | 0 | 2 | 2 | 4 |
| 0 | 1 | 1 | 2 | 3 |
| 2 | 1 | 3 | 4 | 7 |
| 2 | 2 | 4 | 6 | 10 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | 3 | 6 | 9 | 15 |
| –7 | 1 | –6 | –5 | –11 |
| –4 | 4 | 0 | 4 | 4 |
| –11 | 5 | –6 | –1 | –7 |
| –15 | 9 | –6 | 3 | –3 |

## Rhifau negatif mewn cyd-destun

*Golff*

Mewn rownd o golff, mae chwaraewyr yn taro pêl i mewn i un o 18 twll gwahanol. Mae angen defnyddio cyn lleied o ergydion ac sy'n bosib i wneud hyn; y person efo'r nifer lleiaf o ergydion sy'n ennill.

Dyma fanylion y cwrs golff enwog yng ngwesty'r Celtic Manor, ger Casnewydd. Cafodd y cwrs yma ei ddefnyddio ar gyfer cystadleuaeth Cwpan Ryder yn y flwyddyn 2010.



| **Twll** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hyd (llathenni)** | 461 | 605 | 189 | 458 | 447 | 436 | 212 | 437 | 614 |
| **Par** | 4 | 5 | 3 | 4 | 4 | 4 | 3 | 4 | 5 |

| **Twll** | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hyd (llathenni)** | 211 | 560 | 454 | 187 | 480 | 365 | 502 | 209 | 608 |
| **Par** | 3 | 5 | 4 | 3 | 4 | 4 | 4 | 3 | 5 |

Beth ydych yn sylwi? Beth ydych yn rhyfeddu arno?

### Ymarfer

(a) Pa dwll sydd efo'r hyd hiraf? 18 (b) Pa dwll sydd efo'r hyd lleiaf? 13

(c) Sawl twll 'par 3' sydd ar y cwrs? 5 (ch) Sawl twll 'par 4' sydd ar y cwrs? 9

(d) Sawl twll 'par 5' sydd ar y cwrs? 4 (dd) Beth yw cyfanswm par y cwrs cyfan? 71

**Sialens!** ⚠ Beth yw cyfanswm hyd y cwrs cyfan? 7,435 llathen

## Sgorio

Mae chwaraewr yn derbyn sgôr ar gyfer bob twll o'r cwrs golff.

- Os yw Peter yn defnyddio 6 ergyd i gael y bêl i mewn i dwll 1, yna ei sgôr ar gyfer twll 1 yw +2, gan fod 6 dau yn **fwy** na'r par 4.
- Os yw Elen yn defnyddio 2 ergyd i gael y bêl i mewn i dwll 7, yna ei sgôr ar gyfer twll 7 yw –1, gan fod 2 un yn **llai** na'r par 3.

Dyma gerdyn sgorio Peter ar gyfer rownd o golff ar y cwrs.

| **Twll** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ergydion Peter** | 6 | 4 | 3 | 5 | 4 | 3 | 2 | 4 | 3 |
| **Par** | 4 | 5 | 3 | 4 | 4 | 4 | 3 | 4 | 5 |
| **Sgôr ar y twll** | +2 | +1 | 0 | –1 | 0 | –1 | –1 | 0 | –2 |
| **Sgôr** | +2 | +3 | +3 | +2 | +2 | +1 | 0 | 0 | –2 |

| **Twll** | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ergydion Peter** | 3 | 6 | 4 | 5 | 4 | 3 | 5 | 2 | 4 |
| **Par** | 3 | 5 | 4 | 3 | 4 | 4 | 4 | 3 | 5 |
| **Sgôr ar y twll** | 0 | +1 | 0 | +2 | 0 | –1 | +1 | –1 | –1 |
| **Sgôr** | –2 | –1 | –1 | +1 | +1 | 0 | 1 | 0 | –1 |

## Ymarfer


Cwblhewch gerdyn sgorio Elen ar gyfer rownd o golff ar y cwrs.

| **Twll** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ergydion Elen** | 3 | 5 | 3 | 5 | 3 | 3 | 2 | 4 | 6 |
| **Par** | 4 | 5 | 3 | 4 | 4 | 4 | 3 | 4 | 5 |
| **Sgôr ar y twll** | –1 | 0 | 0 | +1 | –1 | –1 | –1 | 0 | +1 |
| **Sgôr** | –1 | –1 | –1 | 0 | –1 | –2 | –3 | –3 | –2 |

| **Twll** | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ergydion Elen** | 3 | 7 | 4 | 3 | 5 | 4 | 3 | 3 | 3 |
| **Par** | 3 | 5 | 4 | 3 | 4 | 4 | 4 | 3 | 5 |
| **Sgôr ar y twll** | 0 | +2 | 0 | 0 | +1 | 0 | –1 | 0 | –2 |
| **Sgôr** | –2 | 0 | 0 | 0 | +1 | +1 | 0 | 0 | –2 |

Pwy gafodd rownd o golff gwell ar y cwrs: Peter neu Elen? Elen, o 1 ergyd.

*Tymheredd*




Dyma'r tymheredd mewn 10 dinas am 18:00 a 06:00 yn ystod mis Ionawr.

Paris (Ffrainc): 10°C a 7°C.

Efrog Newydd (UDA): 5°C a –2°C. 5°C – –2°C = 7°C

Tokyo (Japan): 10°C a 3°C. 10°C – 3°C = 7°C

Caerdydd (Cymru): 8°C a –1°C. 8°C – –1°C = 9°C

Buenos Aires (Yr Ariannin): 29°C a 21°C. 29°C – 21°C = 8°C

Oslo (Norwy): –2°C a –7°C. –2°C – –7°C = 5°C

Sydney (Awstralia): 23°C ag 18°C. 23°C – 18°C = 5°C

Delhi (India): 17°C ag 14°C. 17°C – 14°C = 3°C

Moscow (Rwsia): –4°C a –10°C. –4°C – –10°C = 6°C

Berlin (Yr Almaen): 3°C a –3°C. 3°C – –3°C = 6°C

**Ymarfer**

Y newid mewn tymheredd ym Mharis oedd
10°C – 7°C = 3°C.
Ysgrifennwch y newid mewn tymheredd yn y naw dinas arall yn yr un ffordd.

**Ymarfer**

Mae'r tymheredd yn disgyn 7°C yn y dinasoedd canlynol. Llenwch y bylchau.

Los Angeles (UDA): 18°C i 11°C.

Caeredin (Yr Alban): 7°C i 0°C.

Rio de Janeiro (Brasil): 31°C i 24°C.

Reykjavik (Gwlad yr Ia): 3°C i –4°C.

Beijing (Tsieina): 4°C i –3°C.

Rhufain (Yr Eidal): 9°C i 2°C.

Madrid (Sbaen): 9°C i 2°C.

Seoul (De Corea): 2°C i –5°C.

**Ymarfer**

Eglurwch beth sy'n digwydd i'r tymheredd yn y symiau canlynol.

(a) –5°C + 9°C Cynyddu 9°C o –5°C i 4°C

(b) –8°C – 4°C Lleihau 4°C o –8°C i –12°C

(c) 3°C – 4°C Lleihau 4°C o 3°C i –1°C

(ch) –7°C + 3°C Cynyddu 3°C o –7°C i –4°C

*Arian*



Mae llawer o bobl yn defnyddio **cyfrif cyfredol** gyda banc er mwyn gallu derbyn a thalu arian. Yn aml mae'r cyfrif yn caniatáu **gorddrafft**, sy'n golygu y gall **balans** y cyfrif fynd yn negatif. (Dywedir bod y cyfrif "yn y coch" pan fo hyn yn digwydd.)

Dyma enghraifft o **gyfriflen** banc, sy'n dangos y taliadau a'r derbyniadau ar gyfer mis penodol.

| **Mrs Meinir Jones**<br>Cyfriflen cyfrif cyfredol<br><br>Cod didoli: 12-34-56<br>Rhif y cyfrif: 21436587 | | | **Banc Cymru**<br>**1 Ionawr – 31 Ionawr**<br><br>Arian i mewn: £506.60<br>Arian allan: £476.22<br>Gorddrafft: £500 | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Disgrifiad** | **Arian allan** | **Arian i mewn** | **Balans** |
| 01 Ion | Balans cychwynnol | | | 305.00 |
| 04 Ion | Debyd Uniongyrchol: Bil Trydan | 103.00 | | 202.00 |
| 07 Ion | Taliad Cerdyn i Tesco | 86.25 | | 115.75 |
| 10 Ion | Taliad Cerdyn i Amazon | 49.99 | | 65.76 |
| 14 Ion | Taliad Cerdyn i Paypal | 45.20 | | 20.56 |
| 18 Ion | Taliad Cerdyn i Lidl | 74.35 | | –53.79 |
| 20 Ion | Debyd Uniongyrchol: Bil Dŵr | 55.00 | | –108.79 |
| 24 Ion | Wedi'i dderbyn gan eich cyflogwr | | 506.60 | 397.81 |
| 30 Ion | Taliad Cerdyn i Shell | 62.43 | | 335.38 |
| 31 Ion | Balans terfynol | | | 335.38 |

Beth ydych yn sylwi? Beth ydych yn rhyfeddu arno?

## Ymarfer


Cwblhewch y bylchau yn y gyfriflen ganlynol.

| **Mrs Meinir Jones**<br>Cyfriflen cyfrif cyfredol<br><br>Cod didoli: 12-34-56<br>Rhif y cyfrif: 21436587 | | **Banc Cymru**<br>**1 Chwefror – 28 Chwefror**<br><br>Arian i mewn: £541.36<br>Arian allan: £517.76<br>Gorddrafft: £500 | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Disgrifiad** | **Arian allan** | **Arian i mewn** | **Balans** |
| 01 Chw | Balans cychwynnol | | | 335.38 |
| 04 Chw | Debyd Uniongyrchol: Bil Trydan | 103.00 | | 232.38 |
| 05 Chw | Taliad Cerdyn i Aldi | 72.48 | | 159.90 |
| 07 Chw | Taliad Cerdyn i Bwyty Moethus | 48.52 | | 111.38 |
| 10 Chw | Taliad Cerdyn i Paypal | 34.50 | | 76.88 |
| 12 Chw | Taliad Cerdyn i Amazon | 24.40 | | 52.48 |
| 17 Chw | Taliad Cerdyn i Sinema | 12.50 | | 39.98 |
| 20 Chw | Debyd Uniongyrchol: Bil Dŵr | 55.00 | | –15.02 |
| 21 Chw | Taliad Cerdyn i McDonalds | 5.40 | | –20.42 |
| 21 Chw | Taliad Cerdyn i Spar | 12.38 | | –32.80 |
| 22 Chw | Taliad Cerdyn i Primark | 39.96 | | –72.76 |
| 24 Chw | Wedi'i dderbyn gan eich cyflogwr | | 541.36 | 468.60 |
| 25 Chw | Taliad Cerdyn i Asda | 64.20 | | 404.40 |
| 25 Chw | Taliad Cerdyn i Boots | 8.42 | | 395.98 |
| 27 Chw | Taliad Cerdyn i Garej Gethin | 37.00 | | 358.98 |
| 28 Chw | Balans terfynol | | | 358.98 |

# Ffracsiynau

## Terminoleg

Dyma'r enwau ar gyfer rhannau gwahanol unrhyw ffracsiwn.




- Y **vinculum** yw'r enw ar gyfer y llinell lorweddol yng nghanol y ffracsiwn.
- Y **rhifiadur** yw'r enw ar y cyfanrif ar dop y ffracsiwn.
- Yr **enwadur** yw'r enw ar y cyfanrif ar waelod y ffracsiwn.

## Ymarfer

(a) Cylchwch y ffracsiynau isod ble mae'r rhifiadur yn 3.

$\frac{3}{4}$ $\frac{1}{3}$ $\frac{1}{2}$ $\frac{3}{5}$ $\frac{3}{7}$ $\frac{2}{3}$ $\frac{33}{34}$ $\frac{3}{7}$

(b) Cylchwch y ffracsiynau isod ble mae'r enwadur yn 4.

$\frac{4}{5}$ $\frac{1}{4}$ $\frac{4}{7}$ $\frac{3}{4}$ $\frac{1}{44}$ $\frac{5}{4}$ $\frac{4}{9}$ $\frac{4}{11}$

(c) Ysgrifennwch bedwar ffracsiwn ble mae'r enwadur yn 7. ee $\frac{1}{7}, \frac{2}{7}, \frac{3}{7}, \frac{4}{7}$

(ch) Ysgrifennwch dri ffracsiwn ble mae'r rhifiadur yn 5. ee $\frac{5}{6}, \frac{5}{7}, \frac{5}{8}$

(d) Ysgrifennwch bump ffracsiwn ble mae'r rhifiadur ddau yn llai na'r enwadur. ee $\frac{1}{3}, \frac{2}{4}, \frac{3}{3}, \frac{4}{6}, \frac{5}{7}$

(dd) Ysgrifennwch bedwar ffracsiwn ble mae'r enwadur yn ddwbl y rhifiadur. ee $\frac{1}{2}, \frac{2}{4}, \frac{3}{6}, \frac{4}{8}$

(e) Ysgrifennwch dri ffracsiwn ble mae'r rhifiadur yn 1. ee $\frac{1}{2}, \frac{1}{3}, \frac{1}{4}$

(f) Ysgrifennwch bedwar ffracsiwn ble mae swm y rhifiadur a'r enwadur yn saith. ee $\frac{1}{6}, \frac{2}{5}, \frac{3}{4}, \frac{4}{3}$

(ff) Ysgrifennwch dri ffracsiwn ble mae'r gwahaniaeth rhwng y rhifiadur a'r enwadur yn bedwar. ee $\frac{1}{5}, \frac{2}{6}, \frac{3}{7}, \frac{4}{8}$

(g) Ysgrifennwch ddau ffracsiwn ble mae'r enwadur bedair gwaith yn fwy na'r rhifiadur. ee $\frac{1}{4}, \frac{2}{8}$


## Ffracsiwn o Siâp

Er mwyn lliwio ffracsiwn o siâp,

- Rhannwch y siâp i mewn i ddarnau hafal yn ôl y rhif sy'n cael ei ddangos yn yr enwadur;
- Lliwiwch y nifer o ddarnau hafal sy'n cael ei ddangos yn y rhifiadur.

Er enghraifft, er mwyn lliwio $\frac{2}{5}$ o gylch,

- Rhannwch y cylch i mewn i 5 darn hafal;
- Lliwiwch 2 o'r darnau hafal.



Sylwch fod rhaid i'r darnau fod yn **hafal**.


## Ymarfer

Pa luniau isod sy'n dangos $\frac{2}{5}$ o siâp wedi'i liwio?


(a) ✓




(b) ✗




(c) ✗




(ch) ✗




(d) ✓




(dd) ✗




(e) ✓




(f) ✗



(ff) ✗





(g) ✓





## Adnabod Ffracsiwn o Siâp


Pa ffracsiynau o’r siapiau canlynol sydd wedi’u lliwio?



(a) $\frac{2}{3}$



(b) $\frac{3}{5}$



(c) $\frac{5}{8}$



(ch) $\frac{1}{2}$



(d) $\frac{3}{6}$



(dd) $\frac{5}{8}$



(e) $\frac{5}{6}$



(f) $\frac{5}{12}$



(ff) $\frac{7}{12}$


(g) $\frac{3}{4}$


(ng) $\frac{5}{8}$


(h) $\frac{7}{16}$



(i) $\frac{2}{4}$


(j) $\frac{9}{16}$


# Ymarfer

Lliwiwch y ffracsiwn o bob siâp sy'n cael ei ddangos.


(a) $\frac{3}{10}$




(b) $\frac{5}{8}$




(c) $\frac{1}{4}$




(ch) $\frac{2}{6}$




(d) $\frac{6}{6}$




(dd) $\frac{7}{12}$




(e) $\frac{3}{5}$




(f) $\frac{7}{8}$




(ff) $\frac{3}{8}$




(g) $\frac{9}{16}$




(ng) $\frac{1}{2}$




(h) $\frac{1}{4}$



(i) $\frac{5}{8}$




(j) $\frac{11}{16}$




## Ymarfer


Trwy rannu'r siâp i mewn i ddarnau hafal o ran arwynebedd, lliwiwch y ffracsiwn sy'n cael ei ddangos.




(a) $\frac{1}{2}$




(b) $\frac{1}{4}$




(c) $\frac{2}{3}$




(ch) $\frac{2}{5}$




(d) $\frac{3}{4}$




(dd) $\frac{3}{4}$




(e) $\frac{2}{3}$




(f) $\frac{5}{8}$




(ff) $\frac{3}{8}$



(g) $\frac{3}{5}$



(ng) $\frac{5}{9}$



(h) $\frac{4}{9}$


Oes mwy nag un ffordd o ateb y cwestiynau uchod? Trafodwch.

## Cyfrifo Ffracsiwn o Rif (ffracsiwn fel gweithredydd)


### Enghraifft

Cyfrifwch $\frac{3}{7}$ o £42.

Gan fod enwadur y ffracsiwn yn 7, lluniwch fodel bar yn cynnwys 7 bloc, i ddangos y £42.




Nesaf, cyfrifwch werth un bloc, trwy rannu'r £42 yn gyfartal rhwng y 7 bloc: £42 ÷ 7 = £6.





Mae'r cwestiwn yn gofyn am $\frac{3}{7}$ o £42, felly rydym angen ffeindio gwerth tri o'r blociau: 3 × £6 = £18. Dyma'r ateb i'r cwestiwn.


### Ymarfer

Lluniwch fodel bar addas er mwyn ffeindio'r ateb i'r cwestiynau canlynol.


(a) $\frac{2}{3}$ o £12





(b) $\frac{3}{5}$ o £15





(c) $\frac{1}{4}$ o £12





(ch) $\frac{5}{6}$ o £36




(d) $\frac{2}{7}$ o £21




(dd) $\frac{7}{8}$ o £40



## Ymarfer

Cysylltwch y cardiau canlynol fesul tri.

| | | |
|---|---|---|
| $\frac{1}{2}$ o 30 | 7 \| 7 \| 7 \| 7 \| 7 \| 7 \| 7 | 16 |
| $\frac{2}{3}$ o 24 | 5 \| 5 \| 5 \| 5 \| 5 \| 5 \| 5 \| 5 \| 5 | 15 |
| $\frac{7}{9}$ o 45 | 5 \| 5 \| 5 \| 5 \| 5 \| 5 | 28 |
| $\frac{4}{7}$ o 49 | 15 \| 15 | 35 |
| $\frac{5}{6}$ o 30 | 8 \| 8 \| 8 | 25 |

## Ymarfer


(a) Mae fy nghi wedi cael 15 o gŵn bach. Gwerthir $\frac{2}{3}$ o'r cŵn bach. Faint o gŵn bach sydd wedi cael eu gwerthu, a faint sydd ar ôl? 10, 5

(b) Mae gan John 54 o sticeri. Mae'n rhoi $\frac{4}{9}$ i Tom. Faint mae'n ei roi i Tom, a faint sydd ganddo ar ôl? 24, 30

(c) Roedd gan Sam £5 o arian poced. Gwariodd $\frac{7}{10}$ ohono ar lyfr. Faint o bres y gwariodd Sam, a faint oedd ganddo ar ôl? £3.50, £1.50

(ch) Mewn gêm o griced, llwyddodd Sali i daro $\frac{4}{5}$ o'r peli gafodd eu bowlio tuag ati. Os cafodd 40 o beli eu bowlio tuag at Sali, sawl pêl llwyddodd Sali eu taro, a sawl pêl fethodd Sali eu taro? 32, 8

# Ffracsiynau ac Amser



## Ymarfer

(a) Mewn 15 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{1}{4}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

(b) Mewn 10 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{1}{6}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

(c) Mewn 30 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{1}{2}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

(ch) Mewn 5 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{1}{12}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

(d) Mewn 20 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{1}{3}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

(dd) Mewn 40 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{2}{3}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

(e) Mewn 45 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{3}{4}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

(f) Mewn 50 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{5}{6}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

(ff) Mewn 35 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{7}{12}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

(g) Mewn 1 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{1}{60}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

(ng) Mewn 60 munud mae bys **awr** y cloc yn mynd $\frac{1}{12}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

(h) Mewn 180 munud mae bys **awr** y cloc yn mynd $\frac{1}{4}$ o'r ffordd o amgylch y cloc.

## Ffracsiwn fel Swm Rhannu (ffracsiwn fel rhif)


Mae'n bosib ysgrifennu'r ffracsiwn $\frac{2}{5}$ fel y swm rhannu 2 ÷ 5.

Yr enw ar y symbol ÷ yw'r *obelus*, symbol sy'n edrych fel ffracsiwn, gyda'r dotiau'n cynrychioli'r rhifiadur a'r enwadur.


Mae bob ffracsiwn efo lleoliad arbennig ar y llinell rif. Dyma ddau ddull er mwyn darganfod lleoliad $\frac{2}{5}$ ar y llinell rif.

### Dull 1 (y dull rhannu, 2 ÷ 5)


Cychwynnwch efo model bar yn dangos 2 uned ar linell rif.




Rhannwch y bar i mewn i 5 darn hafal.





Lleoliad $\frac{2}{5}$ ar y llinell rif yw ble mae'r darn cyntaf o'r bar yn gorffen.





### Dull 2 (y dull unedol, ffeindio $\frac{2}{5}$ o 1)


Cychwynnwch efo model bar yn dangos 1 uned ar linell rif.




Rhannwch y bar i mewn i 5 darn hafal.






Lleoliad $\frac{2}{5}$ ar y llinell rif yw ble mae'r ail ddarn o'r bar yn gorffen.




### Ymarfer

Trafodwch sut mae'r ddau ddiagram isod yn dangos lleoliad y ffracsiwn $\frac{3}{10}$ ar y llinell rif.





## Ymarfer

Ychwanegwch saethau ar y llinellau rhif canlynol i ddangos lleoliad y ffracsiynau.


(a) $\frac{3}{4}$





(b) $\frac{2}{7}$




(c) $\frac{4}{5}$




(ch) $\frac{3}{2}$





## Ymarfer

Ar ddarn o bapur sgwariau, lluniwch ddiagramau addas ar gyfer dangos lleoliad y ffracsiynau canlynol ar linell rif.

(a) $\frac{3}{5}$ (b) $\frac{1}{5}$ (c) $\frac{4}{5}$

(ch) $\frac{5}{2}$ (d) $\frac{3}{3}$ (dd) $\frac{3}{7}$



**Sialens!** ⚠

Pa ffracsiwn o'r sgwâr ar y dde sydd wedi'i liwio?

$\frac{24}{36}$ neu $\frac{2}{3}$

## Cymharu Maint Ffracsiynau

Pa ffracsiwn yw'r mwyaf: $\frac{2}{5}$ neu $\frac{3}{7}$? Gan ddefnyddio'r dull unedol, gallwn leoli'r ddau ffracsiwn ar linell rif:





Gwelwn o'r diagram bod $\frac{2}{5}$ yn llai na $\frac{3}{7}$, felly rydym yn ysgrifennu $\frac{2}{5} < \frac{3}{7}$.

$<$ 'yn llai na' $>$ 'yn fwy na' $=$ 'yn hafal i'


## Ymarfer

Ysgrifennwch y symbol <, > neu = rhwng y parau canlynol o ffracsiynau.


(a) $\frac{3}{4} < \frac{5}{6}$





(b) $\frac{2}{8} = \frac{1}{4}$





(c) $\frac{2}{3} > \frac{1}{4}$





(ch) $\frac{7}{10} < \frac{4}{5}$




(d) $\frac{4}{10} = \frac{2}{5}$





(dd) $\frac{2}{5} < \frac{1}{2}$





(e) $\frac{5}{9} < \frac{2}{3}$





(f) $\frac{6}{9} = \frac{2}{3}$




(ff) $\frac{7}{12} < \frac{3}{4}$





(g) $\frac{18}{24} = \frac{3}{4}$




## Newid y Rhifiadur

Beth sy'n digwydd i faint ffracsiwn wrth gadw'r enwadur yr yn fath, a chynyddu maint y rhifiadur?


$\frac{1}{5}$




$\frac{2}{5}$




$\frac{3}{5}$




Gwelwn o'r diagramau uchod bod maint ffracsiwn yn **cynyddu** wrth gadw'r enwadur yr un fath a chynyddu'r rhifiadur.

## Ymarfer

Cylchwch y ffracsiwn **mwyaf** ym mhob pâr canlynol o ffracsiynau.

(a) $\frac{2}{5}$ a $\frac{3}{5}$ (b) $\frac{3}{5}$ a $\frac{4}{5}$ (c) $\frac{2}{7}$ a $\frac{5}{7}$


(ch) $\frac{6}{7}$ a $\frac{3}{7}$ (d) $\frac{3}{4}$ a $\frac{1}{4}$ (dd) $\frac{7}{8}$ a $\frac{3}{8}$

(e) $\frac{4}{9}$ a $\frac{7}{9}$ (f) $\frac{4}{11}$ a $\frac{5}{11}$ (ff) $\frac{10}{11}$ a $\frac{8}{11}$

(g) $\frac{3}{2}$ a $\frac{5}{2}$ (ng) $\frac{5}{5}$ a $\frac{6}{5}$ (h) $\frac{76}{123}$ a $\frac{107}{123}$

## Sialens!

Ysgrifennwch ddigid sengl rhwng 1 a 9 ym mhob un o'r bocsys ar y dde i greu'r ffracsiwn mwyaf posib sy'n llai na hanner.




## Newid yr Enwadur

Beth sy'n digwydd i faint ffracsiwn wrth gadw'r rhifiadur yr yn fath, a chynyddu maint yr enwadur?


$\frac{2}{3}$




$\frac{2}{4}$




$\frac{2}{5}$




Gwelwn o'r diagramau uchod bod maint ffracsiwn yn **lleihau** wrth gadw'r rhifiadur yr un fath a chynyddu'r enwadur.

## Ymarfer

Cylchwch y ffracsiwn **mwyaf** ym mhob pâr canlynol o ffracsiynau.

(a) $\frac{2}{4}$ a $\frac{2}{5}$ (b) $\frac{3}{5}$ a $\frac{3}{4}$ (c) $\frac{2}{7}$ a $\frac{2}{5}$

(ch) $\frac{6}{7}$ a $\frac{6}{11}$ (d) $\frac{3}{4}$ a $\frac{3}{2}$ (dd) $\frac{7}{8}$ a $\frac{7}{9}$

(e) $\frac{2}{9}$ a $\frac{2}{7}$ (f) $\frac{4}{11}$ a $\frac{4}{13}$ (ff) $\frac{10}{11}$ a $\frac{10}{7}$


(g) $\frac{4}{3}$ a $\frac{4}{5}$ (ng) $\frac{5}{5}$ a $\frac{5}{8}$ (h) $\frac{76}{123}$ a $\frac{76}{122}$

## Sialens!

Ysgrifennwch ddigid sengl gwahanol rhwng 1 a 9 ym mhob un o'r bocsys ar y dde i greu gosodiad sydd yn wir.

$\frac{1}{2} < \frac{3}{4} < \frac{5}{6}$

## Y Wal Ffracsiynau




Beth ydych yn sylwi? Beth ydych yn rhyfeddu arno?

### Ymarfer

(a) Pa ddau ffracsiwn sy'n adio at ei gilydd i roi $\frac{1}{2}$? $\frac{1}{4}$ a $\frac{1}{4}$

(b) Darganfyddwch ddwy ffordd wahanol o ysgrifennu $\frac{1}{3}$. $\frac{2}{6}$ a $\frac{3}{9}$

(c) Darganfyddwch ffordd wahanol o ysgrifennu $\frac{3}{4}$. $\frac{6}{8}$

(ch) Pa ffracsiwn yw'r mwyaf: $\frac{3}{8}$ neu $\frac{4}{10}$? $\frac{4}{10}$

(d) Pa ffracsiwn yw'r lleiaf: $\frac{3}{5}$ neu $\frac{5}{8}$? $\frac{3}{5}$

(dd) Sawl degfed fyddai angen eu hychwanegu i $\frac{2}{5}$ i wneud un cyfan? 6


(e) Edrychwch ar y patrwm yma o ffracsiynau: $\frac{1}{2}, \frac{2}{3}, \frac{3}{4}, \frac{4}{5}, \frac{5}{6}, \frac{6}{7}, \ldots$

(i) Beth yw'r ffracsiwn nesaf yn y patrwm? $\frac{7}{8}$

(ii) Beth sy'n digwydd i werth y ffracsiynau wrth i'r patrwm barhau? Maent yn cynyddu

(iii) A fydd ffracsiwn sy'n werth mwy nag un cyfan yn ymddangos yn y patrwm? Na fydd.

## Sialens Diagram Venn





Meddyliwch am ffracsiwn a fyddai'n gallu mynd i mewn i bob rhanbarth.
Os ydych yn meddwl bod rhanbarth yn amhosibl i'w lenwi, eglurwch pam!

E.e.


| | | | |
|---|---|---|---|
| A | $\frac{9}{10}$ | E | $\frac{2}{2}$ |
| B | $\frac{1}{4}$ | F | $\frac{2}{5}$ |
| C | Amhosib: Mae bob ffracsiwn naill ai'n fwy na hanner neu'n llai na thri chwarter. | G | $\frac{2}{3}$ |
| D | $\frac{3}{5}$ | H | Amhosib: Mae bob ffracsiwn naill ai'n fwy na hanner neu'n llai na thri chwarter. |

# Stori $\frac{2}{5}$


Lliwiwch $\frac{2}{5}$ o'r siâp.



Lliwiwch $\frac{2}{5}$ o'r siâp.



Lliwiwch $\frac{2}{5}$ o'r siapiau.



Ysgrifennwch $\frac{2}{5}$ mewn geiriau.

Dau pumed


Beth yw rhifiadur $\frac{2}{5}$?

2

Beth yw enwadur $\frac{2}{5}$?

5

Lleolwch $\frac{2}{5}$ ar y llinell rif.




Cyfrifwch $\frac{2}{5}$ o 35.

$35 \div 5 = 7$

$7 \times 2 = 14$

Cyfrifwch $\frac{2}{5} \times 15$.

$15 \div 5 = 3$

$3 \times 2 = 6$

Pa swm rhannu mae'r ffracsiwn $\frac{2}{5}$ yn ei gynrychioli?

$2 \div 5$

Ysgrifennwch ffracsiwn sy'n gywerth (yr un peth) â'r ffracsiwn $\frac{2}{5}$.

$\frac{4}{10}$

Ysgrifennwch ddau ffracsiwn sy'n adio i roi $\frac{2}{5}$.

$\frac{1}{5}$ a $\frac{1}{5}$






Mae gan Catrin 2 afal a 5 banana. Llenwch y ffracsiynau coll.

Y nifer o afalau yw $\frac{2}{7}$ o'r holl ffrwythau.

Y nifer o fananas yw $\frac{5}{7}$ o'r holl ffrwythau.

Y nifer o afalau yw $\frac{2}{5}$ o'r bananas.

# Gwir neu Gau?

| | | | |
|---|---|---|---|
|  Mae $\frac{3}{8}$ o'r siâp wedi'i liwio. Gau | $\frac{6}{12}$ Mae'r enwadur yn ddwbl y rhifiadur. Gwir | Mae 48 o blant yn bwyta'n ffreutur yr ysgol. Os yw $\frac{1}{4}$ o'r plant yn cael brechdanau, 12 o'r plant sy'n cael brechdanau. Gwir | $\frac{3}{4} < \frac{3}{5}$ Gau |
| Mewn 10 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{1}{6}$ o'r ffordd o amgylch y cloc. Gwir | $\frac{2}{3}$ o £24 yw £16. Gwir | $\frac{1}{3} < \frac{1}{10}$ Gau | $\frac{8}{15}$ Gwir Y gwahaniaeth rhwng y rhifiadur a'r enwadur yw saith. |
| Mae 49 o lyfrau yn y llyfrgell. Os yw Nia wedi darllen $\frac{3}{7}$ o'r llyfrau, mae wedi darllen 14 o lyfrau. Gau | Gau   Mae'r saeth yn pwyntio at y ffracsiwn $\frac{3}{4}$. |  Mae $\frac{5}{9}$ o'r siâp wedi'i liwio. Gwir | Mewn 40 munud mae bys munud y cloc yn mynd $\frac{3}{4}$ o'r ffordd o amgylch y cloc. Gau |
| $\frac{4}{5}$ Gau Rhifiadur y ffracsiwn yw 5. | $\frac{4}{5} = \frac{12}{15}$ Gwir | Gwir   Mae'r saeth yn pwyntio at y ffracsiwn $\frac{5}{8}$. | $\frac{3}{8}$ o 32 yw 7. Gau |
|  Mae $\frac{2}{5}$ o'r sêr wedi'u lliwio. Gwir | $\frac{4}{6}$ wedi'i ysgrifennu mewn geiriau yw 'pedwar chweched'. Gwir | $\frac{6}{7} > \frac{5}{7}$ Gwir | Gwir $\frac{4}{7}$ Enwadur y ffracsiwn yw 7. |